Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Adroddiad Blynyddol 2022-23

Awst 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.wales**
Twitter: **@SeneddDiwyllCRh**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Adroddiad Blynyddol 2022-23

Awst 2023

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru

## Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn.



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd ........ 5**

**1. Cyflwyniad ........ 7**

Gwerthoedd ........ 8

Amcanion ........ 8

Canlyniadau ........ 8

**2. Costau byw yn cynyddu ........ 10**

Y camau nesaf ........ 11

**3. Cysylltiadau Rhyngwladol ........ 12**

Gwaith craffu blynyddol ar gysylltiadau rhyngwladol ........ 12

Datganiad ar y cyd ar flwyddyn ers dechrau'r rhyfel yn Wcráin ........ 13

Cyflwyniad i ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi i'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol ........ 13

Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ........ 14

Bil Protocol Gogledd Iwerddon ........ 15

Y camau nesaf ........ 16

**4. Cyfathrebu ........ 17**

Y camau nesaf ........ 18

**5. Diwylliant ........ 19**

Diogelu casgliadau cenedlaethol mewn amgueddfeydd ac archifau ........ 19

Dyfodol Neuadd Dewi Sant ........ 19

Gwasanaethau diwylliannol anstatudol ........ 20

Gweithlu'r diwydiannau creadigol ..... 20

Oriel Celf Gyfoes i Gymru ..... 21

Canwr y Byd Caerdydd ..... 22

Y camau nesaf ..... 23

**6. Chwaraeon ..... 24**

Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig ..... 24

Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru ..... 24

Costau cynyddol cynnal pyllau nofio ..... 25

Cwpan y Byd FIFA ..... 26

Washington Post - Absent from the World Cup for 64 years, Wales insists: 'We are still here' ..... 26

Y camau nesaf ..... 27

**7. Y Gymraeg ..... 28**

Data'r Cyfrifiad a gwaith yn y dyfodol ar gydlyniant ystadegau'r Gymraeg ..... 28

Ymchwiliad ar y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ..... 28

Eisteddfod Genedlaethol 2022 ..... 30

Y camau nesaf ..... 30

**8. Gweithgareddau eraill ..... 31**

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 ..... 31

Deddfwriaeth ..... 31

Craffu cyn penodi ..... 31

**Annex 1: Adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod 2022-23 ..... 32**

# Rhagair y Cadeirydd

Pleser yw cyflwyno crynodeb o weithgareddau ail flwyddyn y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. Rydym yn cyflwyno'r adroddiad hwn ar adeg pan fo argyfyngau byd-eang a domestig yn dal i effeithio ar y sectorau o fewn ein cylch gorchwyl; ac rydym yn ysgrifennu ar adeg pan ellir dadlau na fu erioed mwy o bwysigrwydd i ddiwylliant, y celfyddydau a chwaraeon wrth roi ystyr i fywydau pobl. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn arwyddocaol o ran cadarnhau presenoldeb Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, ac o bêl-droed i opera, mae ein Pwyllgor wedi olrhain y ffyrdd y mae Cymru, ein diwylliant a'n hiaith wedi dod yn fwyfwy amlwg yn rhyngwladol.

Nid yw wedi bod yn flwyddyn heb ei heriau. Mae effaith barhaus y pandemig, y rhyfel yn Wcráin, Brexit a datblygiadau eraill yn rhyngwladol wedi achosi cynnydd sylweddol mewn costau byw, a chwyddiant. Nid yw sectorau'r celfyddydau, chwaraeon a chyfathrebu wedi osgoi'r pwysau hyn, ac rydym wedi clywed tystiolaeth ofidus am yr effeithiau a deimlir, yn enwedig ym meysydd hamdden, chwaraeon a'r celfyddydau. Mae'r adferiad o'r argyfyngau hyn yn gymysg: er bod rhannau o'r sector diwydiannau creadigol wedi adfer yn bendant (ac yn parhau i fod yn un o'r perfformwyr cryfaf yn economi Cymru), mae lleoliadau cerddoriaeth fyw, theatrau a sectorau'r celfyddydau yn ehangach yn dal i wella. Bydd gwaith ein Pwyllgor sy'n edrych ar y materion y mae gweithlu'r sector yn eu hwynebu yn cael ei gyhoeddi ddechrau'r hydref.

Mae'r pwysau y mae'r sectorau hyn wedi bod yn eu hwynebu yn faes penodol i ni, fel Pwyllgor, ganolbwyntio arno ac, yr haf diwethaf, gwnaethom gynnal trafodaeth banel yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron ar heriau'r dyfodol y mae'r celfyddydau yng Nghymru yn eu hwynebu.

Bu argyfyngau domestig hefyd. Ddechrau 2023, cafodd cyhuddiadau o gasineb at fenywod, bwlio ac aflonyddu eu gwneud yn erbyn Undeb Rygbi Cymru, pan siaradodd grŵp bach o fenywod dewr â'r BBC am eu profiadau. Gweithredodd ein Pwyllgor yn gyflym, gan glywed tystiolaeth gan Undeb Rygbi Cymru, Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru, a byddwn yn cadw llygad barcud ar sut y mae'r diwylliant yn Undeb Rygbi Cymru, a sefydliadau amlwg eraill hefyd yn ein cylch gorchwyl, yn cael ei wella.

Rydym oll yn ymwybodol o ganlyniadau siomedig y Gymraeg yn y Cyfrifiad a gyhoeddwyd ddiwedd 2022. Mae ein Pwyllgor wedi ystyried y canlyniadau hyn fel galwad frys i gyflwyno newid, ac i ganolbwyntio ar wrthdroi'r tueddiadau hyn, yn hytrach nag anobeithio. Ein gobaith ni yw y bydd yr argymhellion sy'n deillio o'n hadolygiad o'r fframwaith sy'n cefnogi addysg Gymraeg yn cyfrannu at gynorthwyo gyda hyn. Ar ben hynny, bydd ein gwaith yn troi o ddifrif yn fuan tuag at graffu ar ganlyniadau ymgynghoriad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Fil Addysg Gymraeg, a'r ddeddfwriaeth ddilynol wedi hynny. Nid yw'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 byth ymhell o'n meddyliau.

Yn olaf, mae ein gwaith o fonitro a chraffu ar waith Llywodraeth Cymru ar gysylltiadau rhyngwladol yn parhau i fynd rhagddo. Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal ymchwiliad i'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, a aeth â ni i Ddulyn yn gynharach eleni, lle roeddem yn gallu gweld yn uniongyrchol gryfder y cysylltiadau rhwng ein dwy genedl. Gall Cymru ddysgu llawer o bethau gan Iwerddon, ond mae llawer o bethau yng Nghymru hefyd sy'n peri i'n cyfeillion yn Iwerddon edrych dros y môr gyda chenfigen (am ysbrydoliaeth?). Y mwyaf nodedig o'r rhain yw ein llwyddiant cymharol o ran cadw'r Gymraeg yn iaith fyw, fywiog sy'n perthyn i bob dinesydd yn ein cenedl. Fel sydd yn aml yn wir yn ein bywydau hefyd, gwnaeth yr ymweliad hwnnw ein dysgu i gofio y gall cael safbwynt allanol ein helpu i weld pethau'n gliriach.  Yn ystod gweddill ein tymor fel Pwyllgor, edrychwn ymlaen at ddod â mwy fyth o safbwyntiau i'n gwaith, ac i barhau i graffu ar y meysydd hyn sydd mor hanfodol bwysig i'n cenedl, ac i'n bywydau.

Hoffwn ddiolch i holl Aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith, yn ogystal â'n tîm Pwyllgor gweithgar. Hoffwn ddiolch i Heledd Fychan AS am ei gwaith fel Aelod o'n Pwyllgor dros y ddwy flynedd diwethaf, a hoffwn groesawu Llyr Gruffydd AS fel Aelod newydd o'n Pwyllgor.



**Delyth Jewell AS**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

# 1. Cyflwyniad

**1.** Sefydlwyd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Chweched Senedd ar 23 Mehefin 2021. Diben y Pwyllgor yw craffu ar bolisi a deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn meysydd penodol. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys y Gymraeg, diwylliant, y celfyddydau, y diwydiannau creadigol, yr amgylchedd hanesyddol, cyfathrebu, darlledu, y cyfryngau, chwaraeon a chysylltiadau rhyngwladol.

**2.** Penderfynwyd ar gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn ddechrau'r Chweched Senedd. Nododd y Pwyllgor ei raglen waith, ei amcanion a'i werthoedd mewn adroddiad, Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022.[1]

**3.** Mae gan y Pwyllgor chwe Aelod sy'n dod o'r pleidiau gwahanol a gynrychiolir yn y Senedd:

- Delyth Jewell AS, Cadeirydd (Plaid Cymru)
- Hefin David AS (Llafur Cymru)
- Alun Davies AS (Llafur Cymru)
- Heledd Fychan AS (Plaid Cymru)
- Tom Giffard AS (Y Ceidwadwyr Cymreig)
- Carolyn Thomas AS (Llafur Cymru)

**4.** Ar 4 Gorffennaf 2023, penodwyd Llyr Gruffydd AS i gymryd lle Heledd Fychan AS ar y Pwyllgor yn dilyn cynnig i ethol Aelodau i Bwyllgorau.[2]

[1] Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Blaenoriaethau a strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd 2021-26 – Mawrth 2022 [PDF 279KB]
[2] Cofnodion y Cyfarfod Llawn: Cynigion i ethol Aelodau i Bwyllgorau: NNDM8317 Elin Jones (Ceredigion) - 4 Gorffennaf 2023

## Gwerthoedd

**5.** Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y bydd y gwerthoedd a ganlyn yn cael eu harddangos drwy gydol ei waith:

- Hyrwyddo, ac yn gweithredu fel hyrwyddwr ar ran y sectorau sy'n dod o fewn ein cylch gorchwyl.
- Gweithio i sicrhau mynediad cyfartal a chyfranogiad mewn diwylliant, y celfyddydau, treftadaeth, y Gymraeg, a chwaraeon i bawb yng Nghymru.
- Ysgogi newid drwy fod yn heriol, yn effeithiol ac yn adeiladol yn ein gwaith craffu.

## Amcanion

**6.** Mae’r Pwyllgor wedi cytuno y bydd yn ceisio bodloni’r amcanion a ganlyn:

- Gweithredu fel ffrind beirniadol i Lywodraeth Cymru a’r cyrff a noddir ganddi, ac yn craffu ar gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Bydd hefyd yn craffu ar weithgarwch Llywodraeth y DU a chyrff perthnasol eraill yn y DU sy'n ymwneud â Chymru.
- Sicrhau bod ystod o leisiau gwahanol yn cael eu clywed ar faterion sy'n effeithio arnynt.
- Gweithredu’n dryloyw ac yn hygyrch yn ein holl weithgareddau i sicrhau bod cynnydd ein gwaith yn agored ac yn glir i bawb.

## Canlyniadau

**7.** Mae’r Pwyllgor wedi cytuno y bydd yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- Sefydlu a chynnal perthynas ag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau bod amrywiaeth o leisiau'n cael eu cynrychioli yn ein gwaith.

- Sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lunio gan brofiadau bywyd go iawn drwy gyfarfod a dysgu gan bobl ar lawr gwlad o wahanol gefndiroedd ledled Cymru.
- Sicrhau ein bod yn hygyrch i'r holl randdeiliaid drwy normaleiddio dull gweithredu hyblyg, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd hybrid fel gofyniad safonol.
- Darparu asesiad gonest o'n perfformiad drwy gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ddiwedd pob tymor yr haf; a sicrhau tryloywder drwy gyhoeddi blaengynllun gwaith ar ddechrau pob tymor hydref.

**8.** Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o weithgareddau'r Pwyllgor ac yn cyfeirio at unrhyw faterion pellach a fydd yn dylanwadu ar ein gwaith ym mhob maes yn ystod y Chweched Senedd.

# 2. Costau byw yn cynyddu

**9.** Mae costau byw wedi bod yn cynyddu'n raddol ers dechrau 2021 yn sgil nifer o ffactorau allanol. I ddechrau, cafodd hyn ei ysgogi gan y galw byd-eang cryf am nwyddau a phroblemau yn y gadwyn gyflenwi yn deillio o bandemig COVID-19. Yn gynharach yn y flwyddyn, y prif ffactor oedd yn ysgogi chwyddiant oedd prisiau ynni, gyda chostau ynni cartrefi a chostau petrol yn cynyddu'n sylweddol. Yn ogystal â hyn, mae effaith trefniadau masnachu newydd yn dilyn Brexit hefyd wedi cyfrannu at gostau cynyddol.

**10.** O ystyried bod y cynnydd mewn prisiau wedi effeithio ar bob person, aelwyd, busnes a sefydliad, cytunodd y Pwyllgor yn ystod haf 2022 y dylai gynnal ymchwiliad brys i effaith y costau cynyddol hyn ar y sectorau sy'n dod o fewn ei gylch gorchwyl.

**11.** Trafododd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, ynghyd â thystiolaeth lafar gan sawl cynrychiolydd yn y sectorau diwylliannol a chwaraeon yng Nghymru.

**12.** Nododd y Pwyllgor fod dyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru ym meysydd diwylliant a chwaraeon yn golygu bod chwyddiant yn lleihau'r dyraniadau hyn. Ar adeg yr ymchwiliad, nid oedd cyfranogiad mewn diwylliant a chwaraeon wedi adfer yn gyfan gwbl i'r lefelau cyn pandemig COVID-19. Roedd hyn yn golygu nad oedd y naill sector na'r llall mewn sefyllfa dda i ymdopi ag effaith costau cynyddol trwy refeniw gwell. At hynny, roedd pwysau costau byw ar incwm gwario yn niweidio ymhellach lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon; y rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, neu sydd â salwch a chyflyrau hirsefydlog yw'r rhai yr effeithir arnynt waethaf. Yn yr adroddiad, galwodd y Pwyllgor am yr hyn a ganlyn:

- Dylai Llywodraeth Cymru weithio ar frys gyda'r Llyfrgell Genedlaethol i ddatrys ei phryderon am y "risg difrifol iawn" i'r casgliadau[3];

[3] Ymgynghoriad Pwyllgor: Effaith costau cynyddol: IIC22 Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Medi 2022 [PDF 685KB]

- Dylai Llywodraeth y DU roi cymorth i leoliadau chwaraeon a diwylliannol gyda chostau ynni y tu hwnt i chwe mis y Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni cychwynnol; a
- Dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid cyfalaf i'r sector chwaraeon a diwylliannol er mwyn iddynt ddod yn fwy gwyrdd o ran eu defnydd o ynni.

## Y camau nesaf

**13.** Bydd y Pwyllgor yn:

- Parhau i fonitro ymateb Llywodraeth Cymru i effaith y costau cynyddol ar leoliadau chwaraeon a diwylliannol, yn enwedig pyllau nofio.

# 3. Cysylltiadau Rhyngwladol

**14.** Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am graffu ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â chysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys cyflawni ei strategaeth ryngwladol[4], a'i chynlluniau gweithredu cysylltiedig[5]. Mae'r Pwyllgor yn arbennig o awyddus i sicrhau nad yw proffil byd-eang Cymru yn lleihau gan fod perthynas Cymru a'r DU â'r UE yn newid, ac yn sgil effeithiau ehangach pandemig COVID-19. Mae'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i barhau i fod yn ymwybodol o sut y mae gwaith rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn croestorri â meysydd eraill o gylch gorchwyl y Pwyllgor ac yn effeithio arnynt.

## Gwaith craffu blynyddol ar gysylltiadau rhyngwladol

**15.** Cynhaliodd y Pwyllgor ei sesiwn graffu flynyddol gyntaf ar gysylltiadau rhyngwladol â'r Prif Weinidog ar 10 Mai 2023. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar y modd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei strategaeth ryngwladol, cysylltiadau rhwng y DU a'r UE, a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Trafododd y Pwyllgor adroddiadau ar ganlyniadau ei weithgareddau ymgysylltu, lansio'r fenter blwyddyn Cymru yn Ffrainc, rôl digwyddiadau chwaraeon mawr fel llwyfan diplomyddol, a pharhau i weithio gyda phartneriaid ledled Ewrop yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

**16.** Mae'r Pwyllgor yn monitro'n rheolaidd weithgareddau cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei rhwydwaith swyddfeydd tramor, ymweliadau tramor ac ymwelwyr, a chysylltiadau dwyochrog Cymru â gwledydd a rhanbarthau blaenoriaethol. Yn ddiweddar, cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar ei waith ar gysylltiadau rhyngwladol o dymor yr hydref 2023 ymlaen.

[4] Llywodraeth Cymru: Strategaeth ryngwladol i Gymru – 14 Ionawr 2020
[5] Llywodraeth Cymru: Cynlluniau gweithredu rhyngwladol – 14 Rhagfyr 2020

## Datganiad ar y cyd ar flwyddyn ers dechrau'r rhyfel yn Wcráin

**17.** I nodi blwyddyn ers dechrau ymosodiad Rwsia ar Wcráin, cyhoeddodd y Pwyllgor ddatganiad ar y cyd â phwyllgorau eraill y Senedd. Nododd y datganiad fel a ganlyn:

> *"Flwyddyn ar ôl i Rwsia ddechrau ei hymosodiad anghyfreithlon, mae pwyllgorau'r Senedd yn sefyll mewn undod ag Wcráin. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gwylio mewn arswyd gyda gweddill y byd wrth i drychineb y rhyfel yno ddatblygu.*
>
> *Rydym yn cadw pobl Wcráin yn ein meddyliau wrth iddynt barhau i wynebu caledi aruthrol. Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â'r bobl hynny, yn enwedig menywod a phlant Wcráin, sydd wedi gorfod gwneud y dewis ingol o ffoi o'u cartrefi neu aros i dderbyn y gwaethaf o ymosodiadau Rwsia.*
>
> *Gyda'n gilydd, fel pwyllgorau'r Senedd, rydym wedi trafod a chodi materion sy'n ymwneud â chymorth i Wcráin yn ein gwaith ers i'r ymosodiad ddechrau, a byddwn yn parhau i wneud hynny.*
>
> *Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i barhau i ymdrechu i roi cymorth i bobl Wcráin."*[6]

## Cyflwyniad i ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi i'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol

**18.** Hefyd, ymatebodd y Pwyllgor i ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi i'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Yn yr ymateb, galwodd y Pwyllgor am yr hyn a ganlyn:

- Mwy o eglurder ynghylch cyfrifoldebau gweinidogol y DU a'r UE ar lefel y DU, ac eglurder ar sut y mae gwaith ymgysylltu ar draws llywodraethau yn cael ei gydgysylltu ar bob lefel;

[6] Senedd Cymru: Datganiad ar y cyd o Bwyllgorau'r Senedd blwyddyn ers dechrau rhyfel Wcráin – 24 Chwefror 2023

- Eglurhad ynghylch rolau'r llywodraethau datganoledig ar draws cysylltiadau'r DU a'r UE;
- Gwella arferion adrodd a thryloywder ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar gyfer seneddwyr, rhanddeiliaid a dinasyddion.

**19.** Cyhoeddodd Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ei adroddiad ar 29 Ebrill 2023, a nododd nifer o'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor hwn.[7]

## Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon



**20.** Ym mis Tachwedd 2022, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon. Fel cymydog allanol ac Ewropeaidd agosaf Cymru, mae gan Gymru ac Iwerddon hanes o gydweithio yn seiliedig ar gysylltiadau hanesyddol, diwylliannol, ieithyddol ac economaidd. Mae'r ddwy wlad yn cydweithio ar nifer o faterion gan gynnwys ar fasnach, datblygu economaidd, addysg ac ymchwil, ynni a newid hinsawdd. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth bod perthynas Cymru ac Iwerddon yn newid ar ôl Brexit wrth i'r ddwy wlad addasu i'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE.

**21.** Mae strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru, a lansiwyd yn 2020, yn nodi Iwerddon fel gwlad sydd â blaenoriaeth o ran y berthynas ac mae'r ddwy lywodraeth wedi llofnodi datganiad a chynllun gweithredu ar y cyd. Dyma berthynas ryngwladol strategol fwyaf datblygedig Llywodraeth Cymru â gwlad arall a'i llywodraeth, gyda dulliau ymgysylltu strwythuredig, amcanion strategol a chamau gweithredu penodol ar waith. Roedd yr ymchwiliad hwn yn gyfle i'r Pwyllgor asesu effeithiolrwydd y dull hwn o ymdrin â chysylltiadau rhyngwladol,

[7] Tŷ'r Arglwyddi: Adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd: Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol (Saesneg yn unig) – 29 Ebrill 2023 [PDF 1.7MB]

ac a ddylid defnyddio'r model hwn fel glasbrint ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol dwyochrog i ymgysylltu â gwledydd a rhanbarthau eraill â blaenoriaeth.

**22.** Yn ystod wyth sesiwn dystiolaeth, trafododd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan ddarparwyr addysg uwch a chynrychiolwyr busnes, sefydliadau iaith, cyrff diwylliannol a threftadaeth, y rhai sy’n cael cyllid gan yr UE, Conswl Cyffredinol Iwerddon, y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig, a Phrif Weinidog Cymru. Ym mis Ebrill 2023, aeth y Pwyllgor ar ymweliad swyddogol â Dulyn a chynhaliodd raglen fanwl o ymgysylltu â chymheiriaid yn Iwerddon. Roedd hyn yn cynnwys cydweithwyr o'r Oireachtas a’r Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig; swyddogion o Swyddfa Iwerddon Llywodraeth Cymru; Adran Materion Tramor Iwerddon; Llysgenhadaeth y DU; Swyddfa Datblygu Morwrol Iwerddon; cynrychiolwyr o Goleg y Drindod Dulyn; Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon; busnesau preifat; a phrosiectau a ariennir gan yr UE.

**23.** Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ar yr ymchwiliad hwn ddechrau tymor yr hydref.

**24.** Hoffai’r Pwyllgor ddiolch i’r holl unigolion a sefydliadau a roddodd o'u hamser i gyfrannu at ein hymchwiliad, a hoffai nodi’r croeso cynnes a’r lletygarwch y cafodd yr Aelodau yn ystod yr ymweliad â Dulyn.

## Bil Protocol Gogledd Iwerddon

**25.** Hefyd, trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Protocol Gogledd Iwerddon. Yn ei adroddiad, nododd y Pwyllgor ei fod yn pryderu bod y Bil yn:

- Nodi dirywiad yn y berthynas rhwng y DU a’r UE a allai, yn ei dro, effeithio ar gyflawni strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru a’r berthynas rhwng Cymru a'r UE.
- Effeithio ar gydweithrediad rhwng Cymru ac Iwerddon.

**26.** Ar 22 Tachwedd 2022, gwrthododd y Senedd gydsynio i'r Bil. Fel rhan o gasgliad Fframwaith Windsor rhwng y DU a’r UE, cytunodd Llywodraeth y DU i beidio â mynd ar drywydd y Bil.

## Y camau nesaf

**27.** Bydd y Pwyllgor yn:

- Cyhoeddi ei adroddiad ar yr ymchwiliad i Gymru ac Iwerddon a chynnal dadl gydag Aelodau o’r Senedd ar yr argymhellion yn yr adroddiad;
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith ehangach ar gysylltiadau rhyngwladol yn ystod y Chweched Senedd.

# 4. Cyfathrebu

**28.** Yn ystod gwaith craffu ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ym mis Hydref 2021, clywodd y Pwyllgor fod newidiadau cyflym mewn technoleg, arferion gwylio, a mynediad chwaraewyr byd-eang i'r farchnad wedi cyflwyno heriau newydd i ddarlledwyr ledled y DU.

**29.** Yn erbyn y cefndir hwnnw o newid cyflym, mae Llywodraeth y DU wedi cynnig newidiadau i reoleiddio'r cyfryngau yn ei Phapur Gwyn ar Fil Cyfryngau. Hefyd, ym mis Gorffennaf 2022, lansiodd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ymchwiliad i ddarlledu yng Nghymru i ystyried sut i sicrhau sector darlledu llwyddiannus a deinamig yng Nghymru.

**30.** Ar ran y Pwyllgor, gwahoddwyd Delyth Jewell AS i eistedd gyda'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig fel gwestai mewn cyfarfod ar 28 Mehefin 2023, er mwyn ystyried tystiolaeth yn ymwneud â'u hymchwiliad ar ddarlledu yng Nghymru. Roedd cyfraniad Cadeirydd y Pwyllgor yn gyfle pwysig i graffu ar waith un o weinidogion Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r mater. Yn ystod y sesiwn, estynnodd Delyth Jewell AS wahoddiad i'r Gweinidog, y Gwir Anrhydeddus Syr John Whittingdale, fod yn bresennol mewn un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud y canlynol:

> *"I will do my very best to make sure that my diary does allow me to attend if there is such an invitation."*[8]

**31.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Materion Cymreig am ei barodrwydd a'i frwdfrydedd wrth groesawu dull o'r fath o weithio ar y cyd, a bydd yn ceisio cyfle cyn gynted â phosibl i wahodd y Gweinidog Gwladol i sesiwn dystiolaeth.

**32.** Er bod darlledu yn fater a gedwir yn ôl, mae'n faes polisi y mae gennym ni fel Pwyllgor ddiddordeb cryf ynddo. Bydd y Pwyllgor yn gweithio i sicrhau bod y

[8] Tŷ'r Cyffredin: Cyfarfod y Pwyllgor Materion Cymreig - 28 Mehefin 2023, Q440

diwygiadau arfaethedig yn galluogi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i barhau i ffynnu er budd pobl Cymru.

**33.** Ym mis Mai 2023, cafodd y Pwyllgor wybod am honiadau o fwlio yn S4C. Bydd y Pwyllgor yn cadw llygad barcud ar y mater hwn a bydd yn aros am ganlyniad unrhyw ymchwiliadau.

**34.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn aros yn eiddgar i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hadroddiad gan ei phanel arbenigol ar Awdurdod Darlledu Cysgodol i Gymru.

## Y camau nesaf

**35.** Bydd y Pwyllgor yn:

- Cynnal ymchwiliad byr i ddarlledu yn ystod tymor yr hydref. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd y Pwyllgor yn gwahodd y Gweinidog Gwladol dros Ddiwylliant, Twristiaeth a'r Diwydiannau Creadigol, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chadeirydd y BBC, Ofcom, S4C ac ITV i gymryd rhan;
- Ystyried canfyddiadau adolygiad annibynnol a sefydlwyd i ymchwilio i honiadau o fwlio yn S4C; a
- Adolygu adroddiad Llywodraeth Cymru gan ei phanel arbenigol ar Awdurdod Darlledu Cysgodol i Gymru pan fydd wedi'i gyhoeddi.

# 5. Diwylliant

## Diogelu casgliadau cenedlaethol mewn amgueddfeydd ac archifau

**36.** Ym mis Chwefror 2023, dywedodd Amgueddfa Cymru wrth y Pwyllgor fod risgiau parhaus i'r casgliadau cenedlaethol oherwydd ôl-groniadau cynnal a chadw ar draws ei safleoedd.

**37.** Gwnaethom ddysgu bod angen gwaith sylweddol ar seilwaith mecanyddol, trydanol a phlymio ar y safle ym Mharc Cathays yng Nghaerdydd. Mae angen gwario £90 miliwn dros y degawd nesaf i sicrhau bod y casgliadau cenedlaethol yn ddiogel ar draws safleoedd gwahanol. Dywedodd y Llyfrgell Genedlaethol wrth y Pwyllgor hefyd y bydd y gostyngiad parhaus mewn cyllid cyfalaf ond yn creu risg bellach a difrifol i'r casgliadau cenedlaethol.[9]

**38.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu ynghylch y risg wirioneddol a achosir i'n casgliadau a'n hystadau – sef casgliadau sydd o werth diwylliannol a hanesyddol sylweddol. Cododd y Pwyllgor y pryderon hyn drwy ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, yn ogystal â gohebiaeth barhaus â Llywodraeth Cymru. Bydd y Pwyllgor yn parhau i geisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru bod y risg i gasgliadau pwysig a gedwir gan Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol yn cael ei chydnabod ac y gweithredir ar y risg honno, a bod diogelu'r casgliadau cenedlaethol hyn i genedlaethau'r dyfodol yn flaenoriaeth.

## Dyfodol Neuadd Dewi Sant

**39.** Yn ystod mis Rhagfyr 2022, cododd y Pwyllgor bryderon am ddyfodol Neuadd Dewi Sant mewn ymateb i gynlluniau gan Gyngor Caerdydd a fyddai'n golygu bod y neuadd yn cael ei rheoli gan gwmni allanol. Roedd diddordeb y Pwyllgor yn y mater yn deillio o'r ffaith mai'r neuadd hon yw'r neuadd symffonig ac operatig genedlaethol yng Nghymru. Roedd hwn yn fater a gasglodd dros 25,000 o lofnodion ar wahanol wefannau deisebau.

[9] Llythyr gan Lyfrgell Cenedlaethol Cymru: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 – 26 Ionawr 2023

**40.** Holodd y Pwyllgor sut roedd y cynlluniau'n bodloni ymrwymiadau polisi presennol Cyngor Caerdydd o ran sicrhau bod y neuadd yn cadw ei safle fel awditoriwm o'r radd flaenaf, ac a fyddai'n cynnal ei hacwsteg arobryn.

**41.** Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu ynghylch pa mor gyflym roedd Cyngor Caerdydd yn ymgymryd â'r broses, yn ogystal â thryloywder y wybodaeth a oedd yn cael ei chyhoeddi gan y cyngor ar y pryd.

## Gwasanaethau diwylliannol anstatudol

**42.** Yn yr un modd â chyllid ar gyfer sefydliadau cenedlaethol, nid yw gwasanaethau diwylliannol anstatudol a ddarperir gan lywodraeth leol yn cael eu hamddiffyn rhag diffygion ariannol a chostau byw cynyddol. Clywodd y Pwyllgor bryderon a godwyd gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd ynghylch ymgynghoriad cyllideb Cyngor Caerdydd oedd yn cynnwys cynlluniau i gau Amgueddfa Caerdydd. Dywedodd Cymdeithas yr Amgueddfeydd wrth y Pwyllgor ei bod yn gwrthwynebu'n gryf gynlluniau i gau'r amgueddfa a'i gwneud yn atyniad symudol. Dywedodd y Gymdeithas y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"Bu Amgueddfa Caerdydd yn arloesi o ran ymgysylltu â'r gymuned ers amser; byddai cau'r amgueddfa yn golygu colli ased diwylliannol llewyrchus sy'n llwyddo'n gyson i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol."*[10]

**43.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu y gallai pwysau cyllido parhaus arwain at newidiadau yn y ddarpariaeth ar wasanaethau anstatudol ym maes diwylliant a'r celfyddydau gan awdurdodau lleol. Bydd y Pwyllgor yn parhau i adolygu hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

## Gweithlu'r diwydiannau creadigol

**44.** Yn ystod haf 2021, roedd nifer o ymatebwyr i ymgynghoriad Blaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd[11] yn galw ar y Pwyllgor i edrych ar gyflwr gweithlu'r diwydiannau creadigol. Clywodd y Pwyllgor fod y

---

[10] Llythyr gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd: Cynnig Cyngor Caerdydd i gau Amgueddfa Caerdydd – 23 Rhagfyr 2022 [PDF 149KB]
[11] Ymgynghoriad Pwyllgor: Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd – Medi 2021

pandemig COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar weithwyr llawrydd, sef – yn ôl amcangyfrif – hanner gweithlu'r sector diwylliannol yng Nghymru. Clywodd y Pwyllgor hefyd fod yr adferiad ar ôl y pandemig yn y sectorau cerddoriaeth fyw, sinema a theatr yn araf, ac nad yw'r cynulleidfaoedd wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig, a allai, yn ei dro, arwain at gau lleoliadau ar raddfa eang. Mae adroddiad[12] a gyhoeddwyd gan gorff y diwydiant, Llawryddion Celfyddydol Cymru, ym mis Ionawr 2022 yn nodi nifer o gasgliadau syfrdanol, gan gynnwys bod bron chwarter y gweithwyr llawrydd yn parhau i fod yn ansicr a fyddent yn aros yn y diwydiant.

**45.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r diwydiannau creadigol wedi bod yn un o'r sectorau economaidd mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. O ystyried arwyddocâd y diwydiannau creadigol ar gyfer economi Cymru a'r pryderon a godwyd am brinder sgiliau posibl ac adferiad araf ar ôl y pandemig mewn rhai sectorau, penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i adolygu hyn. Roedd yr ymchwiliad yn edrych ar gyflwr presennol gweithlu'r sector ac effaith cymorth gan gyrff cyhoeddus fel Llywodraeth Cymru.

**46.** Mae'r Pwyllgor wedi bod yn trafod tystiolaeth ar yr ymchwiliad hwn drwy gydol y flwyddyn, ac mae'n gobeithio cyhoeddi ei ganfyddiadau ddechrau tymor yr hydref yn 2023.

**47.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r holl unigolion a sefydliaau a gymerodd amser i gyfrannu at yr ymchwiliad.

## Oriel Celf Gyfoes i Gymru

**48.** Ym mis Gorffennaf 2023, dechreuodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i oriel celf gyfoes arfaethedig i Gymru. Dechreuodd y trafodaethau am yr oriel yn 2016 ac mae hyn bellach yn ymrwymiad a nodir yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu adolygu datblygiad y cynlluniau hyd yma yn ogystal â rhinweddau'r model sy'n cael ei gynnig.

**49.** Mae gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn hon wedi cynnwys dwy sesiwn dystiolaeth lafar gyda phartneriaid cyflenwi a grwpiau sydd â buddiant. Yn

[12] Llawryddion Celfyddydol Cymru: Ar Lwybr Adferiad? – Ionawr 2022

ogystal â hyn, mae'r Pwyllgor yn cynnal grwpiau ffocws gydag amrywiaeth o artistiaid i ofyn am eu barn. Bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru am y mater hwn yn ystod yr hydref.

## Canwr y Byd Caerdydd

**50.** Ar 9 Mehefin 2023, noddodd y Pwyllgor ddigwyddiad i nodi 40 mlynedd o gystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd BBC Cymru. Ar ran y Pwyllgor, croesawyd y rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol gan Delyth Jewell AS, cyn wythnos o gystadlu i ddathlu llwyddiant parhaus y gystadleuaeth fel un o gonglfeini ymrwymiad y BBC i hyrwyddo a datblygu rhagoriaeth artistig.

**51.** Ers ei sefydlu ym 1983, mae'r gystadleuaeth hon, a gynhelir bob dwy flynedd, wedi bod yn ddathliad o dalent newydd sydd wedi lansio gyrfaoedd rhai o sêr opera gorau'r byd, gan gynnwys y Cymro Bryn Terfel. Bydd yr 16 o gantorion sy'n cael eu dewis i gystadlu yng Nghaerdydd wedi mynd drwy dri cham dethol gyda chlyweliadau rhithwir, o bron 500 o geisiadau. Wrth iddynt gystadlu, mae eu perfformiadau'n cael eu darlledu ar draws y BBC i gynulleidfaoedd ledled y DU a thu hwnt.

**52.** Yn y digwyddiad, croesawodd Delyth Jewell AS gystadleuwyr eleni drwy ddweud:

> *"We in Wales remember well the battle of the baritones in 1989 when Bryn Terfel won the Lieder Prize, and Dmitri Hvorostovsky won the main prize. So many careers have been catapulted into the public consciousness because of this competition. And you in this room have rightly earned your place on that hallowed stage in St David's Hall. What a treat awaits us all in the days ahead."*



## Y camau nesaf

**53.** Bydd y Pwyllgor yn:

- Cyhoeddi adroddiad yn yr hydref yn cynnwys ei ganfyddiadau a'i argymhellion yn ymwneud â'r heriau y mae gweithlu'r diwydiannau creadigol yn eu hwynebu, a chynnal dadl gydag Aelodau o'r Senedd ar yr argymhellion yn yr adroddiad;
- Parhau i geisio sicrwydd bod y risg i gasgliadau pwysig a gedwir gan Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol yn cael ei deall, a bod diogelu'r casgliadau cenedlaethol hyn i genedlaethau'r dyfodol yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru;
- Parhau â'r ymchwiliad i Oriel Celf Gyfoes i Gymru;
- Parhau i adolygu effaith pwysau cyllido ar ddarpariaeth gwasanaethau anstatudol ym maes diwylliant a'r celfyddydau gan awdurdodau lleol.

# 6. Chwaraeon

## Cymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig

**54.** Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad, sef Sicrhau chwarae teg: Adroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig, ym mis Awst 2022.

**55.** Cynhaliodd y Pwyllgor ddadl ar yr adroddiad yn y Senedd ar 30 Tachwedd 2022, pan wnaeth 11 Aelod o'r Senedd gymryd rhan. Bydd y Pwyllgor yn parhau i wthio ei argymellion drwy gydol y Chweched Senedd.

## Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru

**56.** Ar 23 Ionawr 2023, darlledodd BBC Cymru Wales raglen ddogfen, "Welsh Rugby under the Spotlight"[13], a oedd yn cynnwys honiadau difrifol am rywiaeth, casineb at fenywod, homoffobia a hiliaeth yn y corff llywodraethu chwaraeon, Undeb Rygbi Cymru (URC). Roedd y Pwyllgor wedi cael gohebiaeth gan nifer o bartïon (gan gynnwys y cynrychiolwyr cefnogwyr Joint Supporters Group Cymru, Arweinydd yr Wrthblaid Andrew RT Davies AS, a thri Aelod Seneddol dros etholaethau yng Nghymru) yn galw am ymchwiliad i'r mater. O ystyried difrifoldeb yr honiadau, a pha mor ganolog yw rygbi i fywyd cyhoeddus Cymru, roedd y Pwyllgor yn teimlo ei bod yn bwysig bod yr ymateb i'r honiadau hyn yn cael ei drafod yn y Senedd. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Undeb Rygbi Cymru, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip, a swyddogion Chwaraeon Cymru. Nid diben y sesiynau hyn oedd ymchwilio i'r honiadau eu hunain, ond edrych ar ymateb URC, a'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac URC.

**57.** Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad o'i ganfyddiadau ar 16 Mehefin 2023. Yn yr adroddiad, dywedodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gyllid ar gyfer URC yn y dyfodol yn cydymffurfio â phob agwedd ar y strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Contract Economaidd. Galwodd y Pwyllgor hefyd ar Lywodraeth Cymru i adolygu

[13] BBC Wales Investigates: Welsh Rugby under the Spotlight – 23 Ionawr 2023

sut y mae Gweinidogion a gweision sifil yn ymateb i bryderon sy'n cael eu codi gyda hwy am ymddygiad amhriodol mewn sefydliadau yng Nghymru.

**58.** At hynny, un o argymhellion y Pwyllgor oedd, pan fydd y Panel Adolygu Annibynnol, a gomisiynwyd gan URC i ymchwilio i'r honiadau, yn cyhoeddi ei adroddiad, y dylai URC fynd ati cyn gynted ag y bo'n ymarferol i gyhoeddi cynllun gweithredu yn dangos sut a phryd y bydd yn rhoi ei argymhellion ar waith. Dylai hefyd ymuno â chyfarfod o'r Pwyllgor i egluro ei gamau gweithredu cyfredol ac arfaethedig yn y maes hwn.

## Costau cynyddol cynnal pyllau nofio

**59.** Codwyd pryderon gyda'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf am y cynnydd sylweddol mewn costau sy'n gysylltiedig â chynnal pyllau nofio. Yn dilyn ein hymchwiliad yn ymwneud â chostau cynyddol yn ystod hydref 2022, cododd rhanddeiliaid bryderon sylweddol nad oedd digon yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r sector.

**60.** Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod barn anghywir gan Lywodraeth Cymru nad oedd gwasanaethau hamdden fel pyllau nofio dan fygythiad, a dywedwyd yr hyn a ganlyn:

> *"While facilities may stay open, programmes, activities and staffing levels will be significantly affected."*[14]

**61.** Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd am y newidiadau eang sy'n cael eu cynnig gan awdurdodau lleol i wasanaethau chwaraeon a hamdden. Roedd newidiadau o'r fath yn cynnwys cynyddu ffioedd a thaliadau, neu gau cyfleusterau.

**62.** Cododd y Pwyllgor y mater gyda Llywodraeth Cymru, gan ofyn a fyddai'r £63 miliwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer pyllau nofio yn sbarduno swm canlyniadol Barnett, ac a fyddai'n defnyddio unrhyw gyllid ychwanegol i gefnogi pyllau nofio. Ailadroddodd y Pwyllgor alwadau blaenorol am

[14] Llythyr gan Community Leisure UK Wales a Chymdeithas Chwaraeon Cymru ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i effaith costau cynyddol - 23 Chwefror 2023 [PDF 219 KB]

fuddsoddiad cyfalaf mewn effeithlonrwydd ynni ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a hamdden.

## Cwpan y Byd FIFA

**63.** Eleni, gwelsom dîm pêl-droed dynion Cymru yn dychwelyd eto i gystadleuaeth Cwpan y Byd FIFA am y tro cyntaf ers 64 blynedd. Roedd yr effaith a gafodd yr ymddangosiadau ar y genedl yn arbennig iawn. Yn ogystal â chefnogi'r tîm, cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau gwahanol ochr yn ochr â Chwpan y Byd i nodi a dathlu llwyddiannau'r wlad. Roedd hyn yn cynnwys arddangos diwylliant Cymru i'r byd gyda pherfformiadau gan gantorion, rapwyr, bandiau pres ac eraill fel rhan o Ŵyl Cymru a gynhaliwyd yn Qatar, UDA a Chanada.

**64.** Bu'r Pwyllgor hefyd yn monitro gwaith Llywodraeth Cymru o ran manteisio'n llawn ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y twrnamaint. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut roedd yn bwriadu gwerthuso'r gwaith amrywiol a wnaed yng Nghymru a Qatar yn ystod Cwpan y Byd. Roedd y Pwyllgor eisiau gwybod sut roedd y gwerthusiad yn cael ei gynnal a chan bwy, yn ogystal â pha ddangosyddion perfformiad allweddol oedd yn cael eu defnyddio i fesur cynnydd, ac a oedd dadansoddiad o'r defnydd o adnoddau'n cael ei gynnal. Diben codi'r ymholiadau hyn oedd sicrhau bod y gwaith yn cael ei arfarnu'n iawn - o ystyried mai dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru gymryd rhan mewn digwyddiad byd-eang o'r maint hwn.

**65.** Wrth ymateb, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod gwerthusiad annibynnol yn cael ei gynnal. Cyhoeddwyd y gwerthusiad ar 11 Gorffennaf 2023[15]:

### Washington Post - Absent from the World Cup for 64 years, Wales insists: 'We are still here'[16]

**66.** Amlygwyd y diddordeb byd-eang yng Nghymru pan ofynnwyd i Gadeirydd y Pwyllgor gyfrannu at erthygl yn y Washington Post. Wrth drafod yr effaith y byddai cyfranogiad Cymru yn y twrnamaint yn ei chael ar ymdeimlad y wlad o

[15] Llywodraeth Cymru: Gwerthusiad o weithgareddau Cwpan y Byd a ariennir gan Lywodraeth Cymru – 11 Gorffennaf 2023
[16] Washington Post: Absent from the World Cup for 64 years, Wales insists: 'We are still here' – 18 Tachwedd 2022

hunaniaeth ar y llwyfan byd-eang, dywedodd Delyth Jewell AS y canlynol wrth y Washington Post:

> *"The weight of history is on [the team] in lots of ways .... But rather than seeing it as a weight on their heads, I would prefer for them to see it as a support beneath them ... I really feel we've made it now, and whatever happens from here is a wonderful bonus. I hope the players see that – that in our eyes they're already winners."*

## Y camau nesaf

**67.** Bydd y Pwyllgor yn:

- Monitro ymateb URC i ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad annibynnol sy'n edrych ar y materion hyn;
- Parhau i adolygu effaith pwysau cyllido ar ddarpariaeth gwasanaethau anstatudol ym maes chwaraeon a hamdden anstatudol gan awdurdodau lleol, gan gynnwys pyllau nofio;
- Adolygu canfyddiadau gwerthusiad Llywodraeth Cymru o'i gweithgareddau yng Nghwpan y Byd FIFA.

# 7. Y Gymraeg

## Data'r Cyfrifiad a gwaith yn y dyfodol ar gydlyniant ystadegau'r Gymraeg

**68.** Cafodd y Pwyllgor ei siomi gan y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru dros y deng mlynedd diwethaf. Dangosodd data'r Cyfrifiad y bydd yn cymryd amser hir a chymorth parhaus i wrthdroi gwerth degawdau o ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn dangos brys yr angen i weithredu i atal y dirywiad.

**69.** Yn erbyn cefndir canlyniadau siomedig y Cyfrifiad, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystod 2023-24 a thu hwnt i wella dealltwriaeth o'r prif arolwg a'r ffynonellau data gweinyddol a ddefnyddir i lunio ystadegau am y Gymraeg. Mae'r angen am y gwaith hwn yn codi'n rhannol oherwydd y niferoedd gwahanol o siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd yn y Cyfrifiad, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac arolygon amrywiol Llywodraeth Cymru. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r gwaith hwn wrth iddo fynd rhagddo cyn ystyried pa gamau pellach i'w cymryd.

## Ymchwiliad ar y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg

**70.** Yn 2017, gosododd Llywodraeth Cymru darged uchelgeisiol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn o bobl erbyn 2050 (Cymraeg 2050), ynghyd â chynyddu defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd. Nododd y Strategaeth y byddai'r sector addysg yn chwarae rhan ganolog o ran creu'r rhan fwyaf o'r siaradwyr Cymraeg newydd, ac y byddai gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn effeithiol gan awdurdodau lleol yn elfen hanfodol o'r gwaith hwn. Cytunodd y Pwyllgor i edrych yn fanylach ar y fframwaith deddfwriaethol a pholisi, a'r adnoddau sy'n cefnogi datblygiad Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, i benderfynu a yw'r adnoddau sydd ar waith yn ddigonol i gyflawni targedau ac uchelgeisiau Cymraeg 2050.

**71.** Yr ymchwiliad hwn hefyd oedd yr ymchwiliad cyntaf, o blith nifer gobeithio, a gynhaliwyd ar y cyd gan Bwyllgorau'r Senedd ar faterion lle mae buddiannau

cyffredin. Mae rapporteurs o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cymryd rhan yn y sesiynau tystiolaeth lafar fel Aelodau llawn o'r Pwyllgor ac wedi cyfrannu at adroddiad yr ymchwiliad. Roedd y model a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwiliad hwn yn gweithio'n dda, gan ein galluogi i fanteisio ar arbenigedd a gwybodaeth ehangach, a barn Aelodau.

**72.** Trafododd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig gan nifer o randdeiliaid yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Dros bum sesiwn dystiolaeth, siaradodd y Pwyllgor â rhanddeiliaid o lywodraeth leol, unigolion yn y sector addysg a Chomisiynydd y Gymraeg, ymhlith eraill. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Tachwedd 2022. Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor grŵp ffocws gyda chynrychiolwyr sydd ynghlwm â chefnogi datblygiad Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.

**73.** Yn dilyn cyhoeddi data Cyfrifiad 2021, a ddangosodd ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, penderfynwyd y byddem yn cyhoeddi galwad arall am dystiolaeth. Roedd yr alwad hon am dystiolaeth yn gofyn i'r rhai a oedd eisoes wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor rannu eu barn am oblygiadau data Cyfrifiad 2021 ar faterion yn ymwneud â'r ymchwiliad. Ymhlith yr heriau allweddol a amlygwyd gan yr ymatebion oedd yr angen brys i gynyddu capasiti yn y gweithlu addysg dwyieithog, sy'n cynnwys cynyddu capasiti Cymraeg a dwyieithog yn y sector blynyddoedd cynnar. Roedd y dystiolaeth ychwanegol hefyd yn amlygu bod rôl y sector cyfrwng Saesneg yn hanfodol wrth ddatblygu siaradwyr Cymraeg rhugl os yw'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg am gael ei wyrdroi. Mae hyn yn cynnwys yr angen i symud ysgolion ar hyd y continwwm ieithyddol yn gyflym.

**74.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r holl unigolion a sefydliaau a gymerodd amser i gyfrannu at yr ymchwiliad.

## Eisteddfod Genedlaethol 2022



**75.** Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth banel yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf a gynhaliwyd ers pandemig COVID-19. Yn y digwyddiad yn Nhregaron ym mis Awst 2022, cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth yn holi 'Beth nesaf i'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru?' yn dilyn y pandemig. Roedd y panel, dan gadeiryddiaeth Delyth Jewell AS, yn cynnwys cyfraniadau gan yr actor Mali Ann Rees, Gwenllian Anthony o'r band Adwaith, a Steffan Donnelly, Cyfarwyddwr Artistig Theatr Genedlaethol Cymru.

## Y camau nesaf

**76.** Bydd y Pwyllgor yn:

- Adolygu'r gwaith ar y cyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru ar wella dealltwriaeth o'r prif arolwg a'r ffynonellau data gweinyddol a ddefnyddir i lunio ystadegau am y Gymraeg; ac

- Ystyried canlyniad ymgynghoriad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar ei Bil Addysg Gymraeg, a chraffu ar unrhyw ddeddfwriaeth a gyflwynir.

# 8. Gweithgareddau eraill

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

**77.** Mae'r Pwyllgor wedi gwneud gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2023.

## Deddfwriaeth

**78.** Trafododd y Pwyllgor y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a ganlyn:

- Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2).
- Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Ar-lein.
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Protocol Gogledd Iwerddon.

## Craffu cyn penodi

**79.** Am y tro cyntaf yn y Chweched Senedd, mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'r Senedd wedi cytuno i wneud gwaith craffu cyn penodi gan bwyllgorau mewn perthynas â rhai o'r Cadeiryddion a benodir er mwyn gwella'r broses graffu a sicrhau bod y broses penodiadau cyhoeddus yn fwy tryloyw.

**80.** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu cyn penodi ar gyfer yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rolau a ganlyn:

- Comisiynydd y Gymraeg
- Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru;
- Cadeirydd Amgueddfa Cymru.

# Annex 1: Adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod 2022-23

| Dyddiad | Pwnc |
|---|---|
| **Gorffennaf 2022** | Adroddiad Blynyddol 2021-22 |
| **Awst 2022** | Sicrhau chwarae teg: Adroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig |
| **Hydref 2022** | Gwrandawiad cyn penodi: Yr ymgeisydd a ffafrir ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg |
| **Tachwedd 2022** | Costau cynyddol: yr effaith ar ddiwylliant a chwaraeon |
| **Tachwedd 2022** | Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Protocol Gogledd Iwerddon |
| **Rhagfyr 2022** | Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Diogelwch Ar-lein |
| **Chwefror 2023** | Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3 a Rhif 4) ar y Bil Diogelwch Ar-lein |
| **Mawrth 2023** | Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru - 2023-24 |
| **Mawrth 2023** | Gwrandawiad cyn penodi: yr ymgeisydd a ffafrir ar gyfer Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Mai 2023** | Y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg |
| **Mehefin 2023** | Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 5) ar y Bil Diogelwch Ar-lein |
| **Mehefin 2023** | Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru |
| **Gorffennaf 2023** | Gwrandawiad cyn penodi: yr ymgeisydd a ffefrir ar gyfer Cadeirydd Amgueddfa Cymru |
| **Gorffennaf 2023** | Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2): Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Rhif 1 a Rhif 2) |